**Adran y Prif Weithredwr**
**Chief Executive's Department**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# Y CYNGOR

# THE COUNCIL

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**1.00PM, DYDD IAU, 20 HYDREF 2011**

**1.00PM, THURSDAY, 20 OCTOBER 2011**

Lleoliad / Location

**Siambr Dafydd Orwig**
**Swyddfa'r Cyngor,**
**Caernarfon**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eleri Parry**

**(01286) 679601**

**eleriwynparry@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD/DISTRIBUTED 12/10/11)

**Harry Thomas**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

www.gwynedd.gov.uk

12/10/11

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – 20 HYDREF 2011**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00PM, DYDD IAU** nesaf, **20 HYDREF 2011 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Dear Councillor,

**MEETING OF GWYNEDD COUNCIL – 20 OCTOBER 2011**

**YOU ARE HEREBY SUMMONED** to attend a meeting of **GWYNEDD COUNCIL** which will be held at **1.00PM** on **THURSDAY** next, **20 OCTOBER 2011 IN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON** to consider the matters mentioned in the following agenda.

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully,

<u>Prif Weithredwr/Chief Executive</u>

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-
The following rooms will be available for the political groups during the morning:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol/Independent – Ystafell Gwyrfai
Llais Gwynedd – Siambr Hywel Dda
Democratiaid Rhyddfrydol/Liberal Democrats - Ystafell Seiont
Llafur/Labour – Cefn Siambr Dafydd Orwig/Rear of Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1 GWEDDI**

Bydd y Cynghorydd Huw Edwards yn agor y cyfarfod gyda gweddi.

**2 YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3 COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2011. (copi yma - papur ***__Ielog__***).

**4 DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**6 GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

**7 MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**8 CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Reol Gweithdrefn 12.

**9 CYFEIRIO'N UWCH YN UNOL Â RHEOL GWEITHDREFN 21**

Adrodd bod y nifer priodol o aelodau wedi rhoddi rhybudd ysgrifenedig eu bod yn dymuno cyfeirio'r mater isod yn uwch.

**BWRDD Y CYNGOR 26 GORFFENNAF 2011**

**Eitem 10 - Canlyniad yr Ymgynghoriad ar ddyfodol cartrefi preswyl Tan y Marian, Pwllheli a Phant yr Eithin, Harlech**

(a) Adrodd bod Bwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2011 wedi penderfynu fel a ganlyn:-

**PENDERFYNWYD**

**(i) Dod â defnydd presennol Pant yr Eithin, Harlech fel darpariaeth gofal preswyl i ben a sicrhau bod holl breswylwyr cartrefi preswyl cyfredol Pant yr Eithin, Harlech a Than y Marian, Pwllheli yn parhau i dderbyn gwasanaeth mewn darpariaeth llety byddai'n addas a phriodol i'w hasesiadau anghenion;**

**(ii) Bod angen datblygu safle Pant yr Eithin mor fuan â phosibl;**

**(iii) Bod aelodau Pwyllgor Craffu Gofal yn derbyn adroddiadau cynnydd ar y cynllun ym mis Tachwedd 2011 a mis Mawrth 2012**

(b) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol. (copi yma - papur ***gwyrdd***)

**10 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. (copi yma – papur ***melyn***).

**11 TREFNIADAU DEMOCRATAIDD Y CYNGOR**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol. (copi yma – papur ***glas***).

**12 CYRHAEDDIAD Y CYNGOR 2010/11**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad. (copi yma – papur ***gwyn***)

**13 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD - CYTUNDEB CYFLAWNI**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio. (copi yma – papur ***pinc***)

**14 ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU 2010/11**

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad ac Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu. (copi yma – papur ***llwyd***).

**15 RHYBUDDION O GYNNIG**

(a)(i) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Reol Gweithdrefn 13, bydd y Cynghorydd Owain Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

***"Bod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau yn ddi-oed i atal codi unrhyw dâl ar fusnesau mewn trefi'r Sir am osod dodrefn stryd er mwyn denu cwsmeriaid. Mewn cyfnod o drai economaidd pan mae busnesau yn dioddef yn enbyd mae'r ffioedd hyn yn lladd mentergarwch ac yn llethu buddsoddiad."***

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

(ii) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar yr uchod. (copi yma - papur ***glas***)

(b)(i) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Reol Gweithdrefn 13, bydd y Cynghorydd Endaf Cooke yn cynnig fel a ganlyn:-

***"Yn dilyn nifer o achosion diweddar yn ymwneud â gwylanod môr yn creu niwsans mewn rhai o drefydd arfordirol, galwaf ar y Cyngor hwn i gymryd y mesurau angenrheidiol i ymdrin â'r broblem, a hynny'n ddiymdroi.***

***Dylem fel corff cyhoeddus ddangos arweiniad clir a chadarn i amddiffyn ein trigolion ac ymwelwyr rhag y pla cynyddol hwn"***

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

(ii) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar yr uchod. (copi yma - papur ***Ielog***)

(c) (i) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Reol Gweithdrefn 13, bydd y Cynghorydd Chris Hughes yn cynnig fel a ganlyn:-

***"Rwy'n cynnig fod Cyngor Gwynedd yn ymateb i'r newyddion diweddaraf sef bod busnesau yn nhref Caernarfon yn dioddef yn enbyd oherwydd y dirwasgiad economaidd; mae busnes i lawr bron i 30 y cant. Un ffordd o sicrhau gwelliant yng nghanol y dref fuasai diddymu'r arfer presennol o ddynodi man yn agos i Doc Fictoria fel prif safle bysiau a'i symud i'r Maes; felly gofynnaf am benderfyniad buan ar y mater er ceisio achub canol y dref a'r busnesau"***

Derbyniwyd rhybudd trefniadaethol gan yr aelod hefyd yn unol â Rheol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am gael trafod y mater ar y diwrnod yn hytrach na'i gyfeirio i'r pwyllgor perthnasol.

(ii) Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar yr uchod. (copi yma - papur ***llwyd***)

# AGENDA

## 1 PRAYER

Councillor Huw Edwards will open the meeting with a prayer.

## 2 APOLOGIES

To receive any apologies for absence.

## 3 MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the meeting of the Council held on 14 July 2011 be signed as a true record (copy herewith - ***lilac*** enclosure).

## 4 DECLARATION OF PERSONAL INTEREST

To receive any declaration of personal interest.

## 5 THE CHAIRMAN'S ANNOUNCEMENTS

To receive any Chairman's announcements.

## 6 CORRESPONDENCE, COMMUNICATIONS OR OTHER BUSINESS

To receive any correspondence, communications or other business brought forward at the request of the Chairman.

## 7 URGENT BUSINESS

To note any items which are urgent business in the opinion of the Chairman so they may be considered

## 8 QUESTIONS

To consider any questions the appropriate notice for which have been given under Procedural Rule 12.

## 9 REFERENCE UP IN ACCORDANCE WITH PROCEDURAL RULE 21

To report that the appropriate number of members have given written notice that they wish to refer the following matter up.

**COUNCIL BOARD 26 JULY 2011**

**<u>Item 10 – Consultation on the future of Tan y Marian, Pwllheli and Pant yr Eithin, Harlech Residential Homes</u>**

(a) To report that the Council Board at its meeting on 26 July 2011 resolved as follows:-

**RESOLVED**

**(i) That the current use of Pant yr Eithin, Harlech as a residential care provision is brought to an end and that all current residents of Pant yr Eithin, Harlech and Tan y Marian, Pwllheli continue to receive a service in an accommodation provision that is suitable and appropriate to their assessments of need;**

**(ii) That there is a need to develop the Pant yr Eithin site as soon as possible;**

**(iii) That the Care Scrutiny Committee members receive progress reports on the scheme in November 2011 and March 2012.**

(b) To submit the report of the Head of Housing and Social Services Department. (copy herewith - ***<u>green</u>*** enclosure)

## 10 THE COUNCIL'S POLITICAL BALANCE

To submit the report of the Head of Democracy and Legal. (copy herewith - ***<u>yellow</u>*** enclosure).

## 11 THE COUNCIL'S DEMOCRATIC ARRANGEMENTS

To submit the report of the Head of Democracy and Legal. (copy herewith - ***<u>blue</u>*** enclosure).

## 12 THE COUNCIL'S ACHIEVEMENTS IN 2010/11

To submit the report of the Head of Policy and Performance. (copy herewith – ***white*** paper)

## 13 JOINT LOCAL DEVELOPMENT PLAN - DELIVERY AGREEMENT

To submit the report of the Head of Regulatory. (copy herewith – ***pink*** paper)

## 14 ANNUAL REPORT OF OVERVIEW AND SCRUTINY 2010/11

To submit the report of the Head of Policy and Performance and the Overview and Scrutiny Annual Report. (copy herewith – ***grey*** enclosure).

## 15 NOTICES OF MOTION

(a)(i) In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 13, Councillor Owain Williams will propose as follows:-

***"That Gwynedd Council takes action immediately to prevent charging businesses in the County's towns for having street furniture in order to attract customers. In a time of economic decline when businesses are suffering, these fees are killing enterprise and suppressing investment."***

The procedural motion was also received from the member in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

(ii) To submit the report of the Head of Regulatory Department. (copy herewith – ***blue*** enclosure)

(b)(i) In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 13, Councillor Endaf Cooke will propose as follows:-

***"Following a number of recent cases relating to seagulls creating a nuisance in some coastal towns, I call on this Council to take the necessary steps to deal with the problem, urgently.***

***As a public body, we should show clear and firm leadership to protect our residents and visitors from this ever increasing pest."***

The procedural motion was also received from the member in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

(ii) To submit the report of the Head of Regulatory Department. (copy herewith – ***lilac*** enclosure)

(c)(i) In accordance with the notice of motion received under Procedural Rule 13, Councillor Chris Hughes will propose as follows:-

***"I propose that Gwynedd Council responds to the latest news, namely that businesses in the town of Caernarfon are suffering direly as a result of the economic recession; business is down almost 30 per cent. One way of ensuring improvement in the town centre would be to eradicate the current custom of allocating an area close to Victoria Dock as the main bus stop and to move it to Castle Square; therefore, I ask for a decision to be made on the issue soon in an attempt to save the town centre and the businesses."***

The procedural motion was also received from the member in accordance with Procedural Rule 13(12) requesting that the matter be discussed on the day instead of being referred to the relevant committee.

(ii) To submit the report of the Head of Regulatory Department. (copy herewith – ***grey*** enclosure)